

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Cymwysterau (Cymru)

Ionawr 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
cynulliad.cymru/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/3265
Rhif dogfen:15/004

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Cymwysterau (Cymru)

Ionawr 2015

Michael Dauncey, Gareth Thomas ac
Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cefndir	2
2.1. Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14-19 Oed.....	2
2.2. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru	3
2.3. Craffu cyn y Broses Deddfu gan y Pwyllgor	3
2.4. Agweddau eraill ar Adolygiad Huw Evans a diwygiadau dilynol i gymwysterau	3
3. Bil Cymwysterau Cymru	5
4. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael	6
4.1. Un sefydliad penodol.....	6
4.2. Blaenoriaethu cymwysterau	7
4.3. Cyfyngu ar y cymwysterau i un ffurf neu fwy a chymeradwyo un darparwr	8
4.4. Gwella'r capasiti i ddatblygu cymwysterau yn strategol	10
5. Goblygiadau Ariannol y Bil	13
5.1. Cyfanswm a chostau ychwanegol yr opsiwn a ffefrir.....	14
5.2. Costau Staff	16
5.3. Costau safle	16
5.4. Costau TGCh.....	16
6. Yr ymateb i'r Bil	17

Bil Cymwysterau (Cymru)

1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 1 Rhagfyr 2014

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar Gyfnod 1 y Bil:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y terfyn amser ar gyfer adrodd ar Gyfnod 1: 13 Mawrth 2015.

Mae [*Bil Cymwysterau Cymru*](#) ('y Bil') yn darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddiol annibynnol sy'n gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau yng Nghymru nad ydynt ar lefel gradd.

Diben y Bil yw mynd i'r afael â'r pedwar prif ddiffyg ar y system bresennol, a amlinellir fel a ganlyn:

- y ffaith nad oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau;
- nad oes unrhyw bwerau i roi blaenoriaeth i rai cymwysterau a thrwy hynny sicrhau bod modd canolbwyntio ar y cymwysterau y mae angen eu rheoleiddio fwyaf;
- nad oes unrhyw bwerau i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster;
- nad oes digon o gapasiti i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cymwysterau yn strategol o fewn y trefniadau cyfredol.

Mae'r Bil yn rhoi'r prif amcanion canlynol i Gymwysterau Cymru, a bydd yn rhaid iddo weithredu'n gydnaws â'r rhain wrth gyflawni ei swyddogaethau:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn llwyddo'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

2. Cefndir

Mae *Bil Cymwysterau Cymru* yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o Argymhelliad 5 Adolygiad Huw Evans o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ymagwedd polisi wedi datblygu ers ymateb cychwynol Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2012 ac mae'n seiliedig ar adolygiad diwydrwydd dyladwy, ymarfer ymgynghori, a chraffu cyn y broses ddeddfu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Mae hefyd yn rhan o'r broses o newid o fodel rheoleiddio cymwysterau yn seiliedig ar dair gwlad (gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon) sydd ar hyn o bryd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn orddibynnol ar y rheoleiddiwr yn Lloegr, sef Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual).

2.1. Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14-19 Oed

Lansiwyd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru gan Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, ym mis Medi 2011. Gwna'r Bwrdd Adolygu, o dan gadeiryddiaeth Huw Evans OBE, 42 o argymhellion yn ei adroddiad terfynol sy'n dwyn y teitl [*Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru, Adroddiad Terfynol ac Argymhellion*](#), a gyhoeddwyd ar 28 Tachwedd 2012;

Argymhelliad 5 oedd:

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru. Dros amser, dylai Cymwysterau Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau i ddysgwyr 14 i 16.

I ddysgwyr ôl-16, dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau cyffredinol a dylai hefyd reoleiddio cymwysterau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau dyfarnu eraill. Dylai Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio i lunio'r system gymwysterau genedlaethol ar gyfer Cymru a rhesymoli a chryfhau'r prosesau ar gyfer rheoleiddio a gwella'n barhaus, gan ddysgu oddi wrth y model sydd ar waith yn yr Alban.

Ar [5 Rhagfyr 2012](#), cyhoeddodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, y byddai'n derbyn **Argymhelliad 5** y Bwrdd Adolygu **ar sefydlu awdurdod cymwysterau cenedlaethol newydd, Cymwysterau Cymru**.

Cyhoeddodd hefyd y byddai Huw Evans yn cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen, a fyddai'n edrych ar gyflawni'r argymhelliad hwn yn gynnar. Rhoddodd y Gweinidog ragor o wybodaeth mewn datganiad ar [7 Chwefror 2013](#).

Ar 29 Ionawr 2013, dywedodd Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, fod Llywodraeth Cymru yn derbyn pob un o'r 41 o argymhellion eraill a wnaed gan y Bwrdd Adolygu yn gyffredinol, a chyhoeddwyd cynllun gweithredu manwl yn dilyn hynny: [Amserlen o Adolygiad o Gymwysterau 14-19](#).

2.2. *Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru [ymgynghoriad](#) rhwng 1 Hydref ac 20 Rhagfyr 2013 a oedd yn darparu amlinelliad o'i chynlluniau i sefydlu Cymwysterau Cymru. Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion ochr yn ochr â [datganiad](#) gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, ar 2 Mehefin 2014.

2.3. *Craffu cyn y Broses Deddfu gan y Pwyllgor*

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg waith craffu cyn deddfu ar gynigion Llywodraeth Cymru, a chyhoeddodd [adroddiad ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion](#) ym mis Gorffennaf 2014. Prif argymhelliad y Pwyllgor oedd **y dylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei chyfyngu i sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff rheoleiddio yn unig** h.y. er mwyn ehangu ei gylch gwaith yn y dyfodol i gynnwys swyddogaethau dyfarnu, byddai'n ofynnol cael Bil ar wahân.

Cyhoeddodd y Gweinidog mewn [llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor](#) ar 17 Gorffennaf 2014 ei fod yn **derbyn y prif argymhelliad**.

2.4. *Agweddau eraill ar Adolygiad Huw Evans a diwygiadau dilynol i gymwysterau*

Roedd y mwyafrif o'r argymhellion yn [Adolygiad Huw Evans](#) yn canolbwyntio ar ddiwygiadau i'r cymwysterau eu hunain ac yn sefydlu system gymwysterau genedlaethol i Gymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru ar dudalennau 7-17 o Adroddiad Terfynol yr Adolygiad. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu gweithredu drwy waith arall sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru y tu allan i'r Bil hwn.

Ymhlith yr argymhellion mae:

- **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig a mwy trylwyr**, a fydd wrth wraidd y system cymwysterau cenedlaetholnewydd yng Nghymru (i'w gyflwyno o fis Medi 2015 ymlaen)
- Cyflwyno **cymwysterau TGAU diwygiedig, newydd mewn Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith Gyntaf**, er mwyn cyfateb â'r **pwyslais cynyddol ar lythrennedd** o ganlyniad i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd.
- **TGAU Mathemateg diwygiedig**, ac ail **TGAU Rhifedd Mathemateg newydd**, er mwyn cyfateb â'r **pwyslais cynyddol ar rifedd** o ganlyniad i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- **Cadw cymwysterau TGAU** (Manylebau newydd neu ddiwygiedig i'w cyflwyno ym mis Medi 2016 yn ogystal â'r rhai a restrir uchod)
- **Cadw cymwysterau Safon Uwch ac UG** (gyda manylebau newydd neu ddiwygiedig)
- **Proses borthgadw gryfach** ar gyfer **achredu a chymeradwyo** cymwysterau 14-16 ac 16-19.

- Lleihau a **symleiddio nifer y cymwysterau galwedigaethol** sydd ar gael.

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn symud at un fanyleb unigol ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch, sy'n golygu y bydd pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn sefyll yr un cymhwyster. Roedd [pecynnau gwybodaeth](#), wedi'u cynllunio ar gyfer athrawon, dysgwyr a rhieni, a gyhoeddwyd ddechrau mis Tachwedd 2014 gan Lywodraeth Cymru, yn datgan mai **CBAC fyddai unig ddarparwr nifer o gymwysterau sydd ar gael i'r sector a gynhelir**. Bydd CBAC yn darparu manyleb unigol ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg o fis Medi 2015 ymlaen, ynghyd â chymwysterau TGAU diwygiedig eraill o fis Medi 2016 ymlaen, a chymwysterau Safon Uwch ac UG diwygiedig o fis Medi 2015 a mis Medi 2016.

Gwnaeth y Gweinidog [ddatganiad](#) ar 4 Tachwedd 2014, a oedd yn rhoi **diweddariad cryno** ar y diwygiadau i gymwysterau yng Nghymru. Roedd y datganiad hefyd yn cyfeirio at [wefan newydd](#), [Cymwys am Oes](#), a [gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chynllun cyfathrebu i roi gwybod i ddysgwyr, rhieni, athrawon a rhanddeiliaid am y newidiadau](#). Mae enw'r wefan newydd, Cymwys am Oes, yr un fath â [Chynllun Gwella Addysg](#) newydd Llywodraeth Cymru.

3. Bil Cymwysterau Cymru

Mae 8 Rhan i'r Bil, sy'n cynnwys 56 o adrannau, a 4 Atodlen.

Mae **Rhan 1** (adran 1) yn rhoi **trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf**.

Mae Rhan 2 (a2-3) yn **sefydlu'r corff newydd** fel 'Cymwysterau Cymru', gan nodi **ei brif nodau a'r materion y bydd yn rhaid iddo eu hystyried** wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae Rhan 3 (a4-12) yn gwneud darpariaeth i Gymwysterau Cymru gydnabod cyrff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru.

Mae Rhan 4 (a13-28) yn gwneud darpariaeth i Gymwysterau Cymru gymeradwyo cymwysterau a llai gael eu cyllido drwy arian cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru yn diffinio rhestr o **'gymwysterau blaenoriaethol'**, yr amgylchiadau hynny y gallai Cymwysterau Cymru **'gyfyngu' ar nifer y ffurfiau** ar unrhyw gymhwyster sydd ar gael i'w ariannu drwy arian cyhoeddus **i un neu fwy**, a threfniadau i Gymwysterau Cymru **gymeradwyo un corff dyfarnu** i ddarparu un math o gymhwyster yn dilyn proses agored, teg a thryloyw.

Mae Rhan 5 (a29-31) yn gwneud darpariaeth bellach ar gydnabod a chymeradwyo, **gan ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau addysg a hyfforddiant** i ddysgwyr o dan 19 oed **arwain at gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru** pan fydd y cyrsiau hynny'n cael eu cyllido drwy arian cyhoeddus. Mae Rhan 5 hefyd yn **esbonio rolau** Cymwysterau Cymru a'i gorff cyfatebol yn Lloegr, **Ofqual**, er mwyn sicrhau nad oes **dim dyblygu** o ran cyfrifoldebau rheoliadol.

Mae Rhan 6 (a32-39) yn cynnwys y **darpariaethau gorfodi** sydd ar gael i Gymwysterau Cymru pan fydd cyrff dyfarnu wedi **methu â chydymffurfio** ag amodau cydnabyddiaeth neu gymeradwyaeth.

Mae Rhan 7 (a40-49) yn gwneud darpariaeth ynghylch **swyddogaethau eraill** Cymwysterau Cymru, gan gynnwys adolygu ac ymchwil, dyletswydd i baratoi datganiad polisi a gweithdrefnau cwyno.

Mae Rhan 8 (a50-56) yn gwneud **darpariaeth gyffredinol**, gan gynnwys mynegai o dermau wedi'u diffinio a ddefnyddir yn y Ddeddf.

4. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi pedwar o brif ddiffygion y trefniadau presennol, y mae'n bwriadu i'r Bil fynd i'r afael â hwy. Mae'r wybodaeth yn y [Memorandwm Esboniadol](#) am ddiben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael yn seiliedig ar y pedwar diffyg hyn.

4.1. *Un sefydliad penodol*

Y prif ddiffyg cyntaf a nodir gan Lywodraeth Cymru yw:

Nid oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau.

- Mae'r ddau brif nod y mae'r Bil yn eu pennu ar gyfer Cymwysterau Cymru yn ategu dull y Llywodraeth Cymru o oresgyn y diffyg hwn.
- Mae **prif nodau** Cymwysterau Cymru (sef sicrhau bod y cymwysterau a'r system cymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd) ynghyd â'r wyth **mater** y bydd yn ddyletswydd arno eu hystyried, **wedi'u cynllunio i sicrhau bod y fantais hirdymor i Gymru a'i dysgwyr yn parhau i fod yn brif ffocws i'r sefydliad.**
- Mae Adran 48(1) o'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru **roi ystyriaeth hefyd i bolisiau perthnasol Llywodraeth Cymru.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhagweld y bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal **deialog reolaidd** gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar bolisiau, er enghraifft ynglŷn â'r cwricwlwm a sgiliau, ond mae'n datgan na fydd hyn yn tanseilio **annibyniaeth y sefydliad ar Lywodraeth Cymru.**
- Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyflwyno **adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol**, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am sut mae wedi arfer ei swyddogaethau o ran ei brif nodau a'i weithgareddau a'i flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- Er na fydd Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau blynyddol na chynllun busnes Cymwysterau Cymru, bydd yn cyflwyno **llythyr cylch gwaith blynyddol** (fel y gwna gydag Estyn). Bydd hyn yn nodi unrhyw feysydd penodol y dylid canolbwyntio arnynt neu weithgareddau a fyddai'n ategu'r swyddogaethau craidd, yn ogystal â setlo'r **grant blynyddol** a delir i Gymwysterau Cymru am gyflawni ei swyddogaethau. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan y Bil i dalu grantiau ychwanegol hefyd i Gymwysterau Cymru.

- Oherwydd y bydd Cymwysterau Cymru yn cael ei ariannu o'r coffrau cyhoeddus yng Nghymru, bydd **dogfen fframwaith** yn cael ei llunio sy'n nodi ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru (yn arbennig ei gyfrifoldebau ariannol). **Uned noddi** yn Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r rhain.
- Mae **Atodlen 1** i'r Bil yn rhoi manylion pellach am y **trefniadau ymarferol** ar gyfer y sefydliad newydd, megis aelodaeth, penodi'r cadeirydd a'r prif weithredwr, a chyfrifon ac archwiliadau.

4.2. *Blaenoriaethu cymwysterau*

Yr ail brif ddiffyg a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yw:

Nid oes unrhyw bwerau i roi blaenoriaeth i rai cymwysterau a thrwy hynny sicrhau bod modd canolbwyntio ar y cymwysterau y mae angen eu rheoleiddio fwyaf - sy'n golygu bod yna nifer fawr o gymwysterau yn cael eu rheoleiddio ond bod yr adnoddau yn brin i sicrhau bod y gwaith yn effeithiol.

Mae Adran 13 o'r Bil yn rhoi dyletswydd ar **Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i gytuno ar restr o gymwysterau**, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, a fydd yn cael ei galw'n '**Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol**' a'u cyhoeddi ar y cyd. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol na'r Bil yn cynnwys manylion penodol y cymwysterau blaenoriaethol hyn, ac eithrio bod yn rhaid i Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru:

fod yn fodlon bod hyder y cyhoedd ynddo yn flaenoriaeth, gan fod y cymhwyster yn arbennig o bwysig i ddysgwyr a/neu gyflogwyr yng Nghymru. (para 69, y Memorandwm Esboniadol)

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ychwanegu y bydd cael rhestr o gymwysterau blaenoriaethol yn galluogi Cymwysterau Cymru i ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol ar y cymwysterau sy'n fwyaf arwyddocaol, gan roi'r hyblygrwydd hefyd i ystyried a ddylid cymeradwyo cymhwyster nad yw'n flaenoriaeth ai peidio.

Un o'r prif ystyriaethau i benderfynu a yw cymhwysterau yn gymhwyster blaenoriaethol ai peidio yw, **Ile y cyflwynir cymhwyster blaenoriaethol** gan gorff dyfarnu cydnabyddedig i'w gymeradwyo, bod yn rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried a ddylid cymeradwyo'r ffurf ar y cymhwyster i'w gyllido drwy arian cyhoeddus. O ran **cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol, ni fydd rheidrwydd ar Gymwysterau Cymru** i ystyried cymeradwyo'r cymhwyster, ar yr amod bod y penderfyniad i wneud hynny'n glir ac yn unol â'i broses benderfynu gyhoeddedig.

Pan fydd cymwysterau yn gymhwyster blaenoriaethol, bydd Cymwysterau Cymru yn gallu **cyfyngu** ar nifer y cymwysterau a fydd ar gael i'w cyllido drwy arian cyhoeddus yng Nghymru i un neu fwy.

4.3. *Cyfyngu ar y cymwysterau i un ffurf neu fwy a chymeradwyo un darparwr*

Y trydydd prif ddiffyg a nodir gan Lywodraeth Cymru yw:

Nid oes unrhyw bwerau i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ers cryn amser ei bod yn awyddus i symud at **fanyleb unigol** o gymwysterau, megis cymwysterau TGAU ac UG a Safon Uwch. Er enghraifft, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y gynhadledd genedlaethol ar gymwysterau ar 11 Rhagfyr 2013¹ wrth ystyried y cymwysterau TGAU Saesneg/Cymraeg Iaith a Mathemateg newydd, a'r cymhwyster TGAU Saesneg/Cymraeg Llenyddiaeth diwygiedig:

Bydd yr arholiadau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno ym mis Medi 2015. Bydd dim fersiwn arall ar gael ar gyfer arian cyhoeddus yng Nghymru, dim ond y rhain.

Mae Adran 14 o'r Bil yn rhoi i Gymwysterau Cymru y pŵer i aseinio cymwysterau i gategori a elwir yn **'gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig'**, a **gellir cyfyngu ar nifer y ffurfiau i gyn lleied ag un**. Er enghraifft, gall Gymwysterau Cymru benderfynu nad yw ond yn bwriadu cymeradwyo un ffurf ar TGAU Saesneg Iaith, sy'n golygu mai dyma fyddai'r unig ffurf a fyddai'n gallu cael arian cyhoeddus yng Nghymru. Wrth wneud penderfyniad o'r fath, mae'n **rhaid i Gymwysterau Cymru fod yn fodlon** bod y cyfyngiad yn ddymunol, yng ngoleuni ei brif nod a'r ddau amcan canlynol:

- Osgoi anghysondeb rhwng ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster (gallai hyn gynnwys lefel y cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â hwy).
- Galluogi Gymwysterau Cymru i ddewis rhwng cyrff dyfarnu gwahanol a all fod am ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster neu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn anarferol ymhlith gwledydd Ewrop yn yr ystyr bod strwythur marchnad ar gyfer cymwysterau pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau. Felly, drwy'r rhan hon o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i **ddiddymu'r farchnad gymwysterau mewn ysgolion a gynhelir ar gyfer rhai cymwysterau yr ystyrir eu bod yn briodol**. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn pwysleisio'r her o sicrhau cydraddoldeb rhwng y gwahanol ffurfiau ar gymwysterau, aneffeithlonrwydd a grëwyd gan yr angen i arddangos cysondeb a'r farn bod rhai ffurfiau ar yr un cymwysterau y mae rhai pobl ifanc yn eu sefyll yn 'haws' na'r rhai sy'n cael eu sefyll gan eraill.

¹ Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, [*Araith i gynhadledd Darparu System Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer Cymru*](#), Stadiwm Swalec, Caerdydd, 11 Rhagfyr 2013

Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd cyflwyno Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ac, o fewn y rhestr honno, rhestr o gymwysterau cyfyngedig, yn cyfrannu at **symleiddio'r system gymwysterau**. Ar gyfer rhai mathau penodol o bynciau, bydd hyn yn golygu un gyfres o gymwysterau. Roedd y Gweinidog wedi dadlau yn ei araith ym mis Rhagfyr 2013:

Pa bynnag gorff dyfarnu sy'n gwneud y gwaith, da ni'n symud tuag at un gyfres o arholiadau TGAU. Bydd pob dysgwr yng Nghymru yn cymryd pwnc TGAU yn gweithio i'r un fanyleb ac yn cymryd yr un asesiad. Bydd hyn yn helpu symleiddio'r system cymwysterau yn unol ag argymhellion yr adolygiad. Gydag un TGAU yn bob maes pwnc bydd Cymwysterau Cymru yn gallu canolbwyntio mwy o amser ac adnoddau ar wneud yn siŵr bod ansawdd ein TGAU yn safon byd, bod yr asesu yn drylwyr a bod y graddau'n deg, a bod darparwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arny'n nhw.

Mae'r Bil yn cyflwyno **model comisiynu** a fydd yn galluogi i Gymwysterau Cymru gytuno ar drefniadau gyda chorff dyfarnu i ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, gyda'r bwriad o'i chymeradwyo. Pan na fydd Cymwysterau Cymru yn cytuno ar drefniadau gyda chorff dyfarnu i ddatblygu'r cymhwyster, gall benderfynu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau a gyflwynir iddo.

Felly, mae'r Bil yn darparu ar gyfer proses lle mae cyrff dyfarnu yn cystadlu â'i gilydd i gael eu dewis gan Gymwysterau Cymru fel darparwr cymhwyster penodol. Mae Nodiadau Esboniadol (paragraff 38) ar gyfer adran 17 yn cyfeirio at 'sicrhau proses gystadleuol' i 'ddethol y cymhwyster/cymwysterau a gymeradwywyd'.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol, wrth **ddewis corff dyfarnu i weithio gydag ef, neu ffurf ar gymhwyster i'w gymeradwyo**, mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru wneud hynny mewn ffordd 'agored, deg a thryloyw', sydd wedi'i nodi mewn cynllun cyhoeddus. Hefyd, rhaid i Gymwysterau Cymru hysbysu pob corff dyfarnu cydnabyddedig ei fod yn bwriadu cyfyngu ar gymhwyster blaenoriaethol a chynnal proses ddethol o'r fath.²

Er mai penderfyniad ar y cyd gyda Gweinidogion Cymru fydd y penderfyniad ar beth sy'n gymhwyster blaenoriaethol, **Cymwysterau Cymru yn unig** fydd yn penderfynu **a fydd cymhwyster yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig ai peidio**. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn penderfynu **pa gorff, neu gyrff dyfarnu**, sy'n gallu darparu'r ffurf(iau) ar gymhwyster/gymwysterau sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhagweld y bydd angen i Gymwysterau Cymru gymryd camau priodol i gael system benodol

² Mae Atodiad B y Memorandwm Esboniadol (paragraffau 69-70) yn esbonio mai CBAC fydd y darparwr unigol o ran cymwysterau cyffredinol, pan fydd y rhain wedi'u cyfyngu, hyd at fis Medi 2020 ar y cynharaf. Felly, bydd y cyfnod adolygu nesaf, pan fydd yn bosibl cyflwyno'r dull comisiynu newydd, ymhen 3-4 blynedd.

ar gyfer ei swyddogaethau comisiynu a chymeradwyo, ond mae'r Bil yn cyflwyno ystod o bwerau a strwythurau corfforaethol i'w alluogi i wneud hynny.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn dadlau:

Lle bydd Cymwysterau Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, gellir newid system gymwysterau Cymru o fod yn un sy'n ymateb i'r cyflenwad i fod yn un sy'n ymateb i'r galw, gan sicrhau bod nifer llai o gymwysterau, a'r rheini'n gymwysterau gwell, yn cynnig gwerth am arian a dewis syml i ganolfannau a dysgwyr sy'n diwallu anghenion dysgwyr a'r economi mewn ffordd well. (para 83)

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud:

Rhagwelir y bydd galluogi Cymwysterau Cymru i wneud trefniadau â chyrrff dyfarnu (adran 15) i ddatblygu cymhwyster yn sicrhau y gellir teilwra cymwysterau yng Nghymru i'w hanghenion economaidd ac addysgol, gan eu cymharu'n drwyadl ar yr un pryd â chymwysterau cyfatebol mewn gwledydd cyfagos a gwledydd pellach i ffwrdd. (para 84)

Yr awgrym yw bod y model comisiynu ar gyfer cymwysterau cyfyngedig yn fwy tebygol o gael ei fabwysiadu ar gyfer cymwysterau academiaidd yn hytrach na chymwysterau galwedigaethol, gyda'r Memorandwm Esboniadol yn rhagweld:

Er y bydd rhai cymwysterau galwedigaethol yn parhau i fodoli o fewn marchnad lle mae mwy nag un darparwr, bydd yn bosibl i Gymwysterau Cymru benderfynu mai sicrhau un gyfres sydd fwyaf priodol ar gyfer cymwysterau eraill. (para 87)

Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 11 Rhagfyr 2014 nad oedd unrhyw reswm dros wahaniaethu rhwng cymwysterau academiaidd a galwedigaethol a bod cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol yn un o'r meysydd amlwg i'w dewis ar gyfer blaenoriaethau neu, o bosibl, cyfyngu cymwysterau.³ Dywedodd hefyd yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Rhagfyr 2014 ei fod yn rhagweld y byddai Cymwysterau Cymru yn weithgar iawn yn y maes galwedigaethol.⁴

4.4. Gwella'r capasiti i ddatblygu cymwysterau yn strategol

Y pedwerydd prif ddiffyg y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno ei drafod yw:

Nid oes digon o gapasiti i hyrwyddo'r gwaith o **ddatblygu cymwysterau yn strategol** o fewn y trefniadau cyfredol - gan greu risg na chaiff cymwysterau Cymru eu parchu, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gymaint â chymwysterau cenhedloedd eraill

Mae Adran 41(3) yn gwneud darpariaeth i Gymwysterau Cymru allu gwneud gwaith **ymchwil** ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chymwysterau a dywed Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu polisi rheoleiddio a hyrwyddo arferion gorau. Mae'r Memorandwm Esboniadol (tudalen 22) yn

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Cofnod y Trafodion \[para56\]](#), 11 Rhagfyr 2014

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion\[15:43\]](#), 2 Rhagfyr 2014

cynnwys **diagram** sy'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd swyddogaethau Cymwysterau Cymru yn rhyng-gysylltu. Yn y diagram hwn, ceir pedair elfen o waith Cymwysterau Cymru:

- Monitro a Sicrhau Ansawdd
- Polisi Strategol ac Ymchwil
- Datblygu a Chomisiynu Cymwysterau
- Cydnabod a Chymeradwyo

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r pedair elfen hyn fel cynhyrchu **cylich lle mae pob elfen yn hysbysu'r ei gilydd**, ond bod **dyletswyddau gwahanol** ar gyfer datblygu a chomisiynu, a chydabod a chymeradwyo cymwysterau. Mae hyn yn adlewyrchu'r **angen i Gymwysterau Cymru reoli ei brosesau a'i strwythurau mewnol ei hun er mwyn gwahanu'r broses gomisiynu a chymeradwyo**. Yn ystod y broses craffu cyn deddfu ym mis Mai 2014, clywodd y Pwyllgor gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) ynglŷn â ffiniau tebyg o ran gweithredu ei swyddogaethau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd **hygludedd** ac mae paragraff 95 y Memorandwm Esboniadol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y pwerau a roddir i Gymwysterau Cymru gan y Bil a'i ymwneud â rhanddeiliaid, yn sicrhau y bydd y cymwysterau sy'n cael eu cynhyrchu a'u dyfarnu yng Nghymru yn **'cymharu'n bositif â'r rheini yng ngweddill y DU** ac mewn gwledydd eraill'.

Mae'r Bil yn rhoi swyddogaethau i Gymwysterau Cymru a fydd yn ei alluogi i gydnabod cyrff dyfarnu a dyfarnu cymwysterau sy'n berthnasol i unrhyw gymhwyster academaidd neu alwedigaethol a ddyfernir yng Nghymru, ac eithrio graddau. Bydd Cymwysterau Cymru yn pennu meini prawf a rhaid iddo gydnabod y cyrff dyfarnu hynny sy'n eu bodloni. Ceir dau fath o gydnabyddiaeth. Mae Adran 8 yn gwneud darpariaeth i Gymwysterau Cymru roi **cydnabyddiaeth gyffredinol** i gorff dyfarnu, ac mae Adran 9 yn gwneud darpariaeth i gorff dyfarnu sydd eisoes yn cael ei gydnabod yn gyffredinol gael **cydnabyddiaeth benodol** mewn perthynas â chymhwyster penodol neu ddisgrifiad o gymwysterau.

Pan fydd cyrff dyfarnu yn ceisio sicrhau **cymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau penodol**, mae angen dilyn proses wahanol yn dibynnu a ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, yn gymwysterau anghyfyngedig neu'n gymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol. Os yw cymhwyster yn gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, bydd Cymwysterau Cymru yn cynnal proses gomisiynu sy'n debyg i'r broses a ddisgrifir yn adran 4.3 uchod. Os yw'n gymhwyster blaenoriaethol, ond yn anghyfyngedig, mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried a yw am ei gymeradwyo ai peidio ac mae'n rhaid iddo gyhoeddi meini prawf cymeradwyo a fydd yn sail i'w benderfyniad. Ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn

gymwysterau blaenoriaethol, bydd Cymwysterau Cymru yn gallu penderfynu eu hystyried i'w cymeradwyo ai peidio ond bydd yn rhaid iddo gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r ffactorau y bydd yn debygol o'u hystyried.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Gymwysterau Cymru gyflwyno **amodau** ar gyfer cymeradwyo cymwysterau, gyda darpariaeth i **orfodi'r** amodau hynny. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amlygu bod 'darpariaethau manwl' hefyd ar gyfer **tynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrth gorff neu dynnu'n ôl statws cymhwyster fel un a gymeradwywyd**, gan gynnwys 'sawl amod ynghlwm wrth hyn yn y Bil' (para 94). Dywed Llywodraeth Cymru fod y pwerau sydd ar gael i Gymwysterau Cymru yn golygu y bydd y sefydliad newydd mewn '**sefyllfa gryfach i fynnu bod gwelliannau yn cael eu gwneud** nag y mae'r drefn reoleiddio bresennol yn ei ganiatáu' (para 107).

Nid yw'r Bil na'r Memorandwm Esboniadol yn darparu llawer o fanylion penodol ar sut y bydd Cymwysterau Cymru yn gallu mabwysiadu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Yn ei ymateb i'r gwaith craffu cyn y broses ddeddfu a wnaed gan y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, cytunodd y Gweinidog fod hyn yn bwysig, a dywedodd y byddai gan Gymwysterau Cymru rôl o'r fath. Er y gellid dadlau y byddai'n bosibl i'w brif nodau gynnwys hyn, nid oes unrhyw fanylion penodol ynghylch beth fydd hyn yn ei olygu.

5. Goblygiadau Ariannol y Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae hyn yn cael ei ategu gan ddogfen fethodoleg ar wahân, sy'n cynnwys y cyfrifiadau, y rhagdybiaethau a'r ffynonellau sy'n sail i'r costau a'r arbedion. Darperir hyn yn Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol. Mae hyn yn cyflwyno'r tri opsiwn a ystyriwyd ar gyfer y Bil (mae gan un o'r rhain ddau is-opsiwn), ynghyd â chostau pob opsiwn ac asesiad o'r graddau y mae'n cyflawni nodau'r Bil. **Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am holl gostau'r Bil, sy'n cael eu hamlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r posibilrwydd o fân gostau i gyrff dyfarnu, sy'n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol, oherwydd gallai Cymwysterau Cymru arfer hawl i adennill ei gostau. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad yw wedi gallu amcangyfrif y costau hyn, oherwydd cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw pennu'r rhain ac ni ddisgwylir iddynt fod yn sylweddol.

Amcangyfrifir mai cost flynyddol opsiwn 1a, yr opsiwn 'gwneud dim', lle bydd Gweinidogion Cymru yn cadw eu swyddogaeth reoleiddiol o dan y trefniadau presennol, yw £4,006,000, felly dyma'r gost o gynnal y trefniadau presennol.

Fodd bynnag, yng nghyd-destun symudiad graddol o'r model tair gwlad o weithio i reoleiddio cymwysterau ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno **opsiwn 1b fel yr opsiwn 'gwneud dim' realistig**, oherwydd byddai hyn yn golygu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â staff rheoleiddiol ychwanegol i atgyfnerthu'r swyddogaeth hon, mwy o weithgarwch ymchwil a chomisiynu cymwysterau. **Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai cost hyn fyddai £5,078,000 yn 2015-16, gyda chostau blynyddol parhaus o £5,302,000 o 2016-17.**

Byddai **Opsiwn 2** yn creu rôl a swyddfa Comisiynydd annibynnol i graffu ar weithgaredd uned reoleiddio annibynnol wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru, sy'n atebol i Weinidog gwahanol, yn debyg i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. **Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y byddai'r opsiwn hwn yn costio £7,766,000 yn 2015-16, gyda chostau blynyddol parhaus o £7,243,000 o 2016-17.**

Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir) i greu Cymwysterau Cymru fel corff rheoleiddio hyd braich, yw'r opsiwn drutaf o'r opsiynau posibl, gan gostio £9,412,000 yn 2015-16 a chostau ariannol parhaus o rhwng £8.1 miliwn ac £8.3 miliwn rhwng 2016-17 a 2019-20.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod bod cost ychwanegol fawr yn gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir, ac mae'n nodi barn y Cabinet mai dyma'r gost y

gellir ei chyfiawnhau sy'n gysylltiedig â system gymwysterau annibynnol yng Nghymru.

5.1. Cyfanswm a chostau ychwanegol yr opsiwn a ffefrir

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o gyfanswm y costau a'r costau ychwanegol a fydd yn deillio o weithredu'r ddeddfwriaeth. Mae manylion pellach am y costau amcangyfrifedig wedi'u nodi yn y tabl isod. Gellir gweld bod:

Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai cyfanswm cost y Bil yw **£42 miliwn rhwng 2015-16 a 2019-20, neu £38 miliwn yn nhermau gwerth presennol**, ar ôl cyflwyno cyfradd ddisgownt o 3.5%.

Cyfanswm costau ychwanegol y Bil rhwng 2015-16 a 2019-20 yw £22 miliwn os defnyddir opsiwn 1a fel y ffigur gwaelodlin, neu £15.7 miliwn, os defnyddir opsiwn 1b (y sefyllfa bresennol realistig) fel y ffigur gwaelodlin.

Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y dystiolaeth a gyflwynodd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **y byddai'r Bil yn cael ei ariannu o adnoddau presennol**, ac nad oes unrhyw ddyraniad ychwanegol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer ei ddarpariaethau.⁵ **Wrth edrych ar y manteision, fel yn achos y rhan fwyaf o Filiau, nid yw'r rhain wedi'u meintioli** oherwydd mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad oes unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir. Yn y tymor hwy, bydd y gangen fasnachu, a sefydlir fel rhan o Gymwysterau Cymru, yn ei alluogi i gynhyrchu ei incwm ei hun. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi rhagdybio y bydd Cymwysterau Cymru yn cael 100% o'i gyllid drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd gyntaf.

⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [RoP\[para118\]](#), 11 Rhagfyr 2014

Tabl 1: Cyfanswm costau a chostau ychwanegol deddfwriaeth, 2015-16 i 2019-20

Costau	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	Cyfanswm
Costau sefydlu						
Costau refeniw						
Cost y prosiect a fyddai'n effeithio ar y sefydli	1,202,000					1,202,000
Staff - Corfforaethol	240,000					240,000
Staff - Nid cyflogau	294,000					294,000
Safle	232,000					232,000
TGCh	580,000					580,000
Costau cyfalaf						
TGCh	664,000					664,000
Gosodiadau a ffitiadau	226,000					226,000
Cyfanswm y costau sefydlu	3,438,000					3,438,000
Costau gweithredu						
Costau refeniw						
Staff - Corfforaethol	869,000	1,490,000	1,490,000	1,490,000	1,490,000	6,829,000
Staff - Swyddogaethau Cymwysterau	1,862,000	2,422,000	2,422,000	2,422,000	2,422,000	11,550,000
Staff - Nid cyflogau	95,000	163,000	163,000	140,000	123,000	684,000
Staff - Uned Noddi	102,000	203,000	203,000	203,000	203,000	914,000
Safle	436,000	748,000	748,000	748,000	748,000	3,428,000
TGCh	0	326,000	326,000	326,000	326,000	1,304,000
Arall, Cyfreithiol a Phroffesiynol	180,000	306,000	306,000	306,000	306,000	1,404,000
Costau cyfalaf						
TGCh	0	0	0	178,000	0	178,000
Costau eraill						
Dibrisiant	50,000	86,000	86,000	86,000	86,000	394,000
Gwariant Rhaglen Cymwysterau Cymru	2,380,000	2,380,000	2,380,000	2,380,000	2,380,000	11,900,000
Cyfanswm y costau gweithredu	5,974,000	8,124,000	8,124,000	8,279,000	8,084,000	38,585,000
Cyfanswm y costau	9,412,000	8,124,000	8,124,000	8,279,000	8,084,000	42,023,000
Costau ychwanegol o gymharu ag opsiwn 1	5,406,000	4,118,000	4,118,000	4,273,000	4,078,000	21,993,000
Costau ychwanegol o gymharu ag opsiwn 1	4,334,000	2,822,000	2,822,000	2,977,000	2,782,000	15,737,000

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol - Bil Cymwysterau Cymru](#)

5.2. Costau Staff

Mae'r rhan fwyaf o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn gysylltiedig â chostau staff. Mae'r rhain ar gyfer staff sy'n cyflawni'r swyddogaethau cymwysterau, staff corfforaethol ac ar gyfer yr uned noddi. Rhagwelir y bydd Cymwysterau Cymru yn cyflogi **73 aelod o staff, ac y bydd y costau staff (gan gynnwys costau nad ydynt yn gyflogau megis hyfforddiant a recriwtio) ychydig o dan £3.5 miliwn yn 2015-16 a rhwng £4.2 miliwn a £4.3 miliwn y flwyddyn o 2016-17.** Mae hyn yn cymharu â'r costau blynyddol presennol o £1.6 miliwn ar gyfer y 37 aelod o staff presennol Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cyfanswm costau ychwanegol o tua **£12.4 miliwn yn erbyn opsiwn 'gwneud dim' 1a.** Mae'r rhain yn cynnwys ychydig dros **£1.8 miliwn yn 2015-16 a rhwng £2.6 miliwn a £2.7 miliwn mewn costau blynyddol parhaus o 2016-17.** Os defnyddir opsiwn 1b fel y ffigur gwaelodlin 'gwneud dim' i fesur y costau ychwanegol yn ei erbyn, byddai costau staffio ychwanegol o **£6.7 miliwn, sy'n cynnwys £1.1 miliwn yn 2015-16 a chostau parhaus o £1.4 miliwn o 2016-17.**

5.3. Costau safle

Mae costau sy'n gysylltiedig â safle hefyd yn elfen sylweddol o gostau sefydlu ychwanegol a chostau parhaus y Bil. Mae gan yr opsiwn a ffefrir gyfanswm costau ychwanegol o ychydig o dan £3.7 miliwn, sy'n cynnwys **costau ychwanegol o £668,000 yn 2015-16, a £748,000 y flwyddyn o 2016-17 ymlaen.** Mae'r costau ychwanegol hyn yn cwmpasu rhent, cyfleustodau, ardrethi busnes, atgyweiriadau a chostau cynnal a chadw a gweinyddu, ac maent yn seiliedig ar gostau cyfartalog y diwydiant.

5.4. Costau TGCh

Y brif ffynhonnell arall o gostau ychwanegol yw costau TGCh, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gostau sefydlu untro. Mae Atodiad B yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal astudiaeth gwmpasu fanwl o'r costau sefydlu cyfalaf, ac wedi cael dyfynbrisiau cyllidebol. Gwnaed gwaith pellach hefyd ar y systemau a'r caledwedd ar gyfer yr opsiwn a ffefrir, ac mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r costau hyn ar ôl i'r darparwyr telathrebu gynnal arolwg manwl o'r safle newydd.

O gymharu ag opsiwn 1a, cyfanswm costau ychwanegol TGCh y Bil yw **£2.7 miliwn, o gymharu ag ychydig o dan £1.25 miliwn yn 2015-16, £326,000 yn 2016-17, 2017-18 a 2019-20 a £504,000 yn 2018-19.** O gymharu ag opsiwn 1b, cyfanswm costau ychwanegol TGCh y Bil yw **£2.1 miliwn, o gymharu ag ychydig o dan £1 filiwn yn 2015-16, £250,000 yn 2016-17, 2017-18 a 2019-20 a £425,000 yn 2018-19** (oherwydd costau ffioedd sy'n gysylltiedig â chynnal a thrwyddedu a fydd yn daladwy bob tair blynedd).

6. Yr ymateb i'r Bil

Mewn datganiad yn y [Cyfarfod Llawn](#) ar 2 Rhagfyr 2014, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC:

Wrth greu Cymwysterau Cymru, rwyf yn cyflawni fy ymrwymadau, yn gyntaf, i reoleiddio annibynnol, yn ail, i gryfhau rheoleiddio, ac yn drydydd, i symleiddio'r system cymwysterau yng Nghymru.

Aeth ymlaen i ddweud:

Mae cymwysterau, yn y bôn, yn fater o hyder: hyder i ddysgwyr eu bod wedi cyflawni'r hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni, hyder i brifysgolion a darparwyr dysgu eraill eu bod yn derbyn dysgwyr sy'n barod ac yn abl i symud ymlaen i addysg uwch, a hyder i gyflogwyr y bydd gan weithwyr y dyfodol y sgiliau y mae eu hangen arnynt i lwyddo yn y gweithle, a'u bod yn gallu dangos y sgiliau hynny.

Bydd gan y corff newydd ddau brif nod o ran cymwysterau a'r system cymwysterau yng Nghymru. Y cyntaf yw sicrhau eu bod yn effeithiol ar gyfer bodloni anghenion rhesymol y dysgwr. Yr ail yw hybu hyder y cyhoedd. Wrth gyflawni'r prif nodau hyn, rhaid i'r corff newydd hefyd ystyried, ymhlith pethau eraill, wyth mater hanfodol bwysig. Mae'r rhain yn ymwneud ag economi Cymru, y Gymraeg, anghenion cyflogwyr, darparwyr addysg uwch a'r proffesiynau, a chymaroldeb cymwysterau yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r materion hefyd yn cynnwys effeithlonrwydd y ddarpariaeth, y berthynas rhwng cyrff o fewn y system cymwysterau, ystod a natur y cymwysterau sydd ar gael, eu trefniadau asesu, a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen. Yn allweddol, mae'r mater olaf hwn yn golygu bod disgwyl i Gymwysterau Cymru ystyried cynnwys cymwysterau ac nid dim ond pa mor dda y maent wedi eu rhoi at ei gilydd neu eu hasesu.

Croesawyd y Bil gan lefarydd y blaid Geidwadol, Angela Burns, ond roedd yn anghytuno ar un mater:

Weinidog, diolch yn fawr iawn am ddod â hwn ger ein bron. Mae gen innau, fel chithau, uchelgais i sicrhau bod y dewisiadau cwricwlwm a'r cymwysterau gorau posibl ar gael i'n myfyrwyr y gallwn fwrw ymlaen â hwy mewn marchnad ryngwladol, ac rwyf wrth fy modd o weld bod llawer yn y Bil hwn y byddwn yn gallu ei gymeradwyo i'm cydweithwyr yn y Ceidwadwyr Cymreig a llawer y gwn fod gennych chi a minnau weledigaeth gyffredin yn ei gylch. Mae un mater y byddai'n rhaid imi anghytuno â chi yn ei gylch [...]

[...] Y mater nad wyf yn cyd-weld â chi yn ei gylch yw eich uchelgais tymor hir y dylai Cymwysterau Cymru fod yn awdurdod rheoleiddio yn ogystal ag yn gorff dyfarnu. Rwyf bob amser wedi dweud fy mod o'r farn y dylent fod yn swyddogaethau ar wahân, ac rwyf yn gobeithio, wrth inni roi cnawd ar esgyrn y Bil hwn, naill ai y byddwch yn gallu rhoi tystiolaeth gref iawn imi a fyddai'n gwneud imi newid fy meddwl, neu y byddaf yn gallu dangos i chi ac i eraill pam y credwn ei bod mor bwysig fod y ddwy swyddogaeth hyn ar wahân, oherwydd wedyn gallwn mewn gwirionedd fonitro, meincnodi a gyrru ymlaen mewn ffordd glir a thryloyw iawn.

Atebodd y Gweinidog:

[...] ydy, mae'n parhau i fod yn fwriad gennyf y bydd Cymwysterau Cymru'n esblygu'n gorff dyfarnu. Ar gyfer hynny, fodd bynnag, byddai angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol. Fy mwriad—wel, fy haeriad—er mwyn i Gymru sefyll ar ei thraed ei hun a bod â system wirioneddol sefydlog, yn enwedig wrth i'n system addysg ddod yn fwyfwy gwahanol, yw bod arnom angen model hunangynhwysol, a fyddai'n debycach i fodel yr Alban na'r un sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn gyntaf oll, rydym yn sefydlu'r corff rheoleiddio hwn, ac yn ei alluogi i ddatblygu ei arbenigedd a dealltwriaeth glir o nodweddion effeithiol cyrff dyfarnu, a bydd y corff ei hun yn cynnig cyngor o ran y camau nesaf dros amser.

Dywedodd Simon Thomas AC, Ilefarydd Plaid Cymru:

Roeddwn yn falch o glywed bod y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd angen deddfwriaeth gynradd bellach cyn y gall y corff hwn, Cymwysterau Cymru, droi'n gorff dyfarnu. Er nad wyf yn erbyn un corff dyfarnu o reidrwydd yng Nghymru yn y modd hwnnw—ac yn wir, fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n gweithio yn yr Alban—rwy'n credu ei fod yn hynod bwysig ein bod yn gweld yn gyntaf sut y mae Cymwysterau Cymru yn perfformio ac yn meincnodi ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, ac yn arbennig nad yw'r corff newydd yn cropian cyn cerdded, fel petai.

Ychwanegodd:

Rwy'n cytuno gyda'r rhan honno o'r datganiad sy'n sôn am y ffaith mai hyder, yn y bôn, yw cymwysterau—hyder yn y gallu i sefyll arholiad; hyder yng nghynnwys yr arholiad; hyder yng nghynnwys y cwricwlwm; a hyder yn y ffordd y mae'r broses arholi yn cael ei gwneud. Yr un peth mawr sydd ar goll—ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad a wnaed gan dîm allgymorth y Cynlluniad dros yr haf gyda phobl ifanc—yw hyder a chred pobl ifanc yng nghymwysterau Cymru ac, o hyd, yn y tebygolrwydd y bydd ambell un o'r cymwysterau hynny'n cael eu derbyn y tu hwnt i Gymru. Mewn cyd-destun lle mae cymwysterau yn newid dros Brydain gyfan, ym mha ffordd y bydd y Llywodraeth yn hysbysu a chyhoeddi'r cymwysterau newydd hyn ac yn gwneud yn siŵr bod yr hyder yn aros gyda rhieni, disgyblion, y proffesiwn a chyflogwyr yn y system?

Dywedodd Ilefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Aled Roberts AC:

[...]mae'r memorandwm esboniadol yn sôn am anawsterau ynglŷn â materion trawsffiniol. A yw'n bosibl i chi ehangu ar eich trafodaethau ar hyn o bryd â Llywodraeth Prydain ynglŷn â materion trawsffiniol, ac a ydych yn rhagweld y bydd y cyfundrefnau presennol ynglŷn â threfniadau rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o ran y rheoleiddwyr, yn parhau?

Ymatebodd y Gweinidog:

O ran cwestiynau Aled ynghylch y materion trawsffiniol, mae'n hollol iawn i godi hynny fel pryder. Bydd darpariaeth yn y Bil ar gyfer ei gwneud yn gwbl glir beth yw swyddogaethau cymharol Ofqual a Chymwysterau Cymru mewn gwirionedd, i'w gwneud yn glir i ni yng Nghymru, ac i anfon neges glir iawn hefyd i Ofqual ynghylch beth yn union yw pwrpas Ofqual mewn perthynas â'r DU. Ni ddylai fod dim amheuaeth ymhlith y rhai sy'n rheoli Ofqual nad yw datganoli'n realiti ac yn rhywbeth y dylent ddygymod ag ef. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs na allwn weithio ochr yn ochr ag Ofqual—yn wir, bydd yn rhaid gwneud hynny—yn enwedig o ran sicrhau bod modd cludo'r cymwysterau ar draws ffiniau.

Dywedodd Dr. Philip Dixon, Cyfarwyddwr [ATL Cymru](#):

The establishment of Qualifications Wales is welcome for several reasons. It will be an independent regulator able to convince other parts of the UK that our qualifications are of high quality. It will conduct in depth research into the best thinking concerning qualifications today. It will ensure that youngsters in Wales get qualifications that will open doors for them in the future. Above all it should mean an end to the exam fiascos that learners have had to endure over the last two years. The abolition of the old independent regulator, ACCAC, was a silly move; this bill is a welcome correction. It is also pleasing to note that Qualifications Wales will not be receiving powers to award qualifications - that would have blurred a boundary that needs to be very clear at the present time. We hope that Qualifications Wales will quickly build up a reputation of listening to teachers and learners about their needs and aspirations.